



20 Awgrym Gwych ar gyfer Cyflwyno Hawliau yn eich Ysgol

Mae'r syniadau hyn wedi cael eu haddasu o [Sixty ideas for RRSA starters](#) a ddatblygwyd gan Ysgol Gymunedol Peacehaven, Dwyrain Sussex, fel rhan o'u gwaith ar gyfer [Dyfarniad Ysgolion sy'n Parchu Hawliau UNICEF](#).

Geirfa allweddol:

Hawliau Plant "Pethau rydych chi eu hangen i fod yn hapus, yn iach ac yn ddiogel"

Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn [CCUHP] "Y ddogfen ryngwladol sy'n cyflwyno hawliau ein plant"

Comisiynydd Plant Cymru "Sally Holland yw Comisiynydd Plant Cymru. Ei gwaith hi yw helpu holl blant Cymru i fod yn hapus, yn iach ac yn ddiogel"

1. Crewch siarter ysgol gyfan wedi'i seilio ar hawliau. Fe wnaeth un ysgol gynradd yn Abertawe gynnwys rhieni, athrawon a disgyblion i benderfynu ar 10 hawl y bydden nhw'n canolbwyntio arnynt yn eu siarter.
2. Gwahoddwch eich disgyblion i fynd ar daith hawliau o amgylch yr ysgol er mwyn canfod arddangosfeydd sy'n cysylltu â hawliau e.e. cysylltiad rhwng Erthygl 12 â'r Cyngor Ysgol neu wasanaethau cymorth; cysylltiad rhwng Erthygl 24 a bwyd iach. Yna ychwanegwch yr hawliau at yr arddangosfeydd.
3. Gall adrannau ysgol uwchradd hybu un erthygl yr un, e.e. gallai'r Adran TG hybu Erthygl 13, 'dy hawl i gael hyd i wybodaeth'; gallai'r Adran Addysg Gorfforol hybu Erthygl 15, 'dy hawl i ymuno â grwpiau a chlybiau'.
4. Gofynnwch i'r disgyblion ystyried hawl eu pen-blwydd a sut maen nhw'n ei phrofi, e.e. os yw eich pen-blwydd ar y 3^{ydd} gallwch chi ddewis Erthygl 3, 'dylai pob oedolyn weithio er dy les pennaf'.
5. Cysylltwch hawliau â diwrnodau a digwyddiadau arbennig yn ystod y flwyddyn, e.e. mae Mawrth 1af, Dydd Gŵyl Dewi, yn gyfle i ystyried Erthygl 7, 'dy hawl i gael enw a chenedl', mae wythnos gwrthfwlio ym mis Tachwedd yn gyfle i ystyried Erthygl 19, 'dy hawl i fod yn ddiogel'.
6. Dewiswch erthygl a meddyliwch am beth sydd eisoes yn digwydd yn eich ysgol i gefnogi'r erthygl honno, e.e. Erthygl 19, 'dy hawl i fod yn ddiogel': cofrestrau, gwiriadau heddlu i'r staff, rheolau i'n cadw ni'n ddiogel, e.e. polisi gwrthfwlio.

7. Cynhaliwch drafodaeth i archwilio hawliau. Rhowch hawl i bob tîm. Mae angen iddyn nhw ddadlau bod yr hawl hon yn hanfodol. I estyn hynny, gallai'r disgyblion esbonio sut mae eu hawl yn cyflawni egwyddorion arweiniol CCUHP [Diogelu, Datblygu, Dweud eich Dweud, Dal yn Fyw: gallwch lawrlwytho adnodd poster defnyddiol sy'n dangos yr egwyddorion arweiniol o [becyn symbolau CCUHP](#) -
8. Dywedwch wrth oedolion am CCUHP, gallwch chi siarad ag athrawon, rhieni/gofalwyr, llywodraethwyr. Gofynnwch iddyn nhw feddwl beth maen nhw eisoes yn ei wneud fel deiliaid dyletswydd i gefnogi CCUHP. Oes yna bethau eraill gallen nhw wneud?
9. Gall disgyblion ysgol uwchradd hybu hawliau plant fel [Her Gymunedol ar gyfer Bagloriaeth Cymru](#)
10. Defnyddiwch ddrama i archwilio eich hawliau e.e. chwarae rôl/rhewi'r ffrâm ar erthygl a gweld ydy eich cymheiriaid yn gallu dyfalu pa erthygl sydd dan sylw.
11. Ysgrifennwch lythyr at blentyn yn y gorffennol i ddweud sut mae hawliau plant wedi newid. Gallwch chi gysylltu'r dasg hon â chyfnodau hanes rydych chi'n eu hastudio, e.e. Pobl oes Victoria, yr Ail Ryfel Byd.
12. Lluniwch acrostig ar gyfer y gair HAWLIAU.
13. Lluniwch rysait ar gyfer Ysgol sy'n Parchu Hawliau, e.e. ½ llwyaid o ymwybyddiaeth, 200g o barch, 100g o ddiogelwch, llond llwy ford o lais y disgyblion, cymysgwch y cynhwysion a'u coginio mewn ysgol gynnes am wythnos o hyfforddiant a gweithgareddau, a'r hyn gewch chi fydd ysgol sy'n cefnogi hawliau!
14. Gall y Llysgenhadon Myfyrwyr greu arddangosfa am Gomisiynydd Plant Cymru sy'n dangos sut mae cysylltu â'r swyddfa i gael help gyda hawliau. Gall pobl ifanc hefyd ddefnyddio ein [cyflwyniad ni](#) i gael hyd i fanylion cyswllt a'u rhannu gyda'u cymheiriaid.
15. Nodwch gynifer o hawliau ag y gallwch chi eu cofio mewn tri munud, pwyntiau bonws – allwch chi gofio rhifau'r erthyglau sy'n eu cynnwys?
16. Cysylltwch hawliau plant â'ch hoff lyfrau a ffilmiau, e.e. sut mae Harry Potter yn cael profiad o'i hawliau (neu beidio)? Beth am y plant yn llyfrau Roald Dahl (Matilda, Charlie a'r Ffatri Siocled)?

17. Dewch o hyd i erthygl yn y papur newydd heddiw sy'n ymwneud â hawliau plant.
18. Ysgrifennwch stori fer i esbonio hawl sy'n rhan o CCUHP i blentyn pump oed.
19. Ysgrifennwch erthygl olygyddol fer ar gyfer papur newydd, yn esbonio sut gall pobl Prydain ddangos mwy o barch at hawliau.
20. Dewiswch hawl y mae angen i ni weithio arni yn eich ysgol chi. Esboniwch pam.

AWGRYM GWYCH: Dathlwch eich gwaith yn y wers yma trwy drydar ar [@complantcymru](https://twitter.com/complantcymru) #AwrHawliau. Byddwch chi hefyd yn cael hyd i syniadau gwyh am sut mae ysgolion eraill yng Nghymru yn addysgu a dysgu am hawliau trwy ddefnyddio ein hashnod twitter #AwrHawliau